# DARPARU GWYBODAETH

## 1 EGWYDDORION CYFFREDINOL

1.1 Datgelu gwybodaeth yw un o'r ffyrdd y byddwn yn sicrhau tryloywder yn ein gwaith. Credwn fod tryloywder yn allweddol i sicrhau canlyniad cyfiawn a bod yn ffyddiog fod ein gwaith yn cael effaith ar blismona a hyder y cyhoedd. Mae tryloywder yn ein helpu i gyflawni ein gwerthoedd craidd o fynd ar drywydd y gwirionedd a gwneud gwahaniaeth.

1.2 Byddwn yn ymdrechu i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl, ar yr amod nad oes cyfyngiad nac ataliad ar ein bod yn gwneud hynny.

1.3 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fyddwn yn dal gwybodaeth yn ôl dim ond oherwydd nad oes gofyniad cyfreithiol positif i'w ddarparu. Fodd bynnag, efallai y bydd angen canolbwyntio ein hadnoddau ar flaenoriaethu'r ceisiadau hyn ble mae yna ofyniad cyfreithiol i ni ddarparu datgeliad.

1.4 Rhaid i ni hefyd gydymffurfio gyda'r gyfraith parthed delio gyda chategorïau penodol o wybodaeth; er enghraifft, deunydd sy'n cyfateb i ddata personol o gategori personol neu arbennig (sensitif) dan y GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Weithiau gall hyn ein hatal rhag datgelu gwybodaeth er bod yna eithriadau ble gall y parti sy'n gofyn am wybodaeth sefydlu rheswm cyfreithlon dros ei derbyn.

1.5 Sefydlir y prif seiliau pam y gallwn ac y byddwn yn darparu gwybodaeth isod.

## 2 Datgeliad dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

2.1 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (DDH) yn sefydlu dyletswydd arnom ym mhob ymchwiliad a reolir ac annibynnol i hysbysu achwynwyr a phersonau eraill â diddordeb:

- am gynnydd yr ymchwiliad
- am unrhyw ddarpar ganfyddiadau yn yr ymchwiliad
- os yw adroddiad yr ymchwiliad wedi ei gyflwyno
- am y camau (os o gwbl) a gymerir parthed materion y deliwyd â nhw mewn unrhyw adroddiad o'r fath; ac
- am ganlyniad unrhyw gamau o'r fath.

2.2 Datgana ein Canllaw Statudol hefyd mai darparu adroddiad terfynol yr ymchwiliad i'r achwynydd neu'r sawl sydd â diddordeb yw'r ffordd fwyaf tryloyw o ddangos beth mae'r ymchwiliad wedi ei ganfod.

2.3 Byddwn yn bod mor agored ag sy'n rhesymol ymarferol wrth gyflawni ein dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth yn ystod, ac yn dilyn cwblhau ymchwiliad DDH. Fodd bynnag, mae'r DdDH yn cydnabod dan rai

amgylchiadau y dylid bod eithriadau i'r ddyletswydd i barhau i hysbysu achwynwyr a rhai â diddordeb. Sefydlir y rhain yn Rheoliad 13, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2012. Dywed y rheoliad y gall fod angen dal gwybodaeth yn ôl ar y seiliau canlynol:

- i atal datgeliad cynamserol neu amhriodol o wybodaeth sy'n berthnasol i gamau troseddol gwirioneddol neu arfaethedig neu y gellid eu defnyddio mewn achos o'r fath;
- er budd diogelwch cenedlaethol;
- i atal neu ganfod trosedd, neu i ddal neu erlyn troseddwyr;
- ble byddai datgeliad yn achosi effaith andwyol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a fyddai'n anghymesur i'r manteision yn codi o ddatgelu e.e. ble byddai datgelu yn cael effaith andwyol ar atal neu ganfod camymddwyn gan swyddogion heddlu eraill neu aelodau staff yr heddlu neu eu harestio am faterion o'r fath;
- neu ble mae fel arall yn angenrheidiol i ddal gwybodaeth yn ôl er lles y cyhoedd.

2.4 Rhaid i ni hefyd ystyried os yw'n briodol i ddatgelu gwybodaeth dan amgylchiadau ble:

- Mae'r wybodaeth yn berthnasol i gamau disgyblu gwirioneddol neu arfaethedig neu y gellid eu defnyddio mewn achos o'r fath;
- Gallai datgelu'r wybodaeth honno arwain at lygru tystiolaeth tyst yn ystod yr achosion disgyblu hynny;
- Gallai datgelu'r wybodaeth honno beryglu lles neu ddiogelwch unrhyw drydydd parti;
- Mae'r wybodaeth honno yn cyfateb i gudd-wybodaeth droseddol.

2.5 Dim ond os ydym yn fodlon fod yna risg gwirioneddol y byddai datgeliad yn cael effaith niweidiol sylweddol y gellir dal gwybodaeth yn ôl ar y seiliau hyn.

## 3 Datgeliad i gyrff cyhoeddus eraill

3.1 Mae gennym ddyletswyddau datgeliad eraill parthed ymchwiliadau a reolir ac annibynnol.

3.2 *Datgeliad i'r awdurdod priodol:* Mae'r DdDH yn darparu bod yn rhaid darparu'r awdurdod priodol â gwybodaeth yn ystod camau penodol o'r ymchwiliad. Efallai y bydd gan yr awdurdod priodol hefyd ddiddordeb cyfreithlon mewn gwybod sut mae'r ymchwiliad yn dod yn ei flaen. Efallai y bydd rhaid i ni ystyried os yw unrhyw rai o'r seiliau y cyfeirir atynt yn Rheoliad 13 yn awgrymu y dylem ddal gwybodaeth yn ôl oddi wrth yr awdurdod priodol yn ystod ymchwiliad. Er enghraifft, efallai y bydd angen dal gwybodaeth yn ôl er mwyn gwarchod annibyniaeth yr ymchwiliad.

3.3 *Datgeliad i Gwest:* Bydd angen i ni gyfathrebu gyda chrwner yn ystod ymchwiliad i farwolaeth, gan ddarparu copi o dystiolaeth neu adroddiadau dros dro ble fo angen. Wrth gwblhau ymchwiliad byddwn yn gwneud datgeliad mor llawn â phosibl i'r crwner i'w alluogi i ddarparu gwybodaeth i bersonau â diddordeb yn y Cwest sy'n angenrheidiol iddynt allu cymryd rhan yn effeithiol yn y broses.

3.4 *Datgeliad i Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG):* Gellir datgelu gwybodaeth I WEG yn ystod ymchwiliad i drosedd bosibl. Wrth gwblhau pob ymchwiliad a reolir ac annibynnol, byddwn yn ystyried os yw'r adroddiad yn dynodi y gall trosedd fod wedi cael ei chyflawni, ac os felly a yw'n briodol dan yr amgylchiadau i gyflwyno adroddiad i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Os penderfynir cychwyn achos troseddol o ganlyniad i faterion y deliwyd â nhw mewn ymchwiliad annibynnol, byddwn yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno.

3.5 *Cyrff cyhoeddus eraill gyda diddordeb cyfreithiol mewn datgeliad:* Cydnabyddir y bydd cyrff eraill weithiau â diddordeb cyfreithiol yn rhai o'r materion y byddwn yn ymchwilio iddynt e.e. y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CAAT) neu gyrff rheoleiddio fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Yn ystod ymchwiliad gallai'r cyrff hyn dderbyn gwybodaeth yn amodol i'r profion y cyfeirir atynt uchod. Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda thrydydd partïon ble mae gennym ofyniad cyfreithiol i wneud hynny, er enghraifft pan fydd rhaid i ni rannu gwybodaeth â'r CAAT. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill ac adrannau llywodraeth ble mae hynny'n gyfreithlon ac yn angenrheidiol i hwyluso defnyddio'u swyddogaethau statudol neu gyhoeddus eraill.

## 4 Datgeliad i ddibenion achos sifil

4.1 Os gofynnir i ni ddarparu gwybodaeth (n<u>a</u> fyddem yn ei datgelu fel arall) i'w defnyddio mewn achos sifil ac nad oes gorchymyn llys yn ymwneud â'r datgeliad, byddwn yn gweithredu'r un prawf ag y byddai llys yn ei weithredu h.y.

- rhaid dangos bod y dogfennau a geisir yn debygol o gefnogi neu effeithio'n andwyol ar achos un parti neu'r llall;
- rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol er mwyn gwaredu'r hawliad yn deg neu i arbed costau; a
- dewis i beidio datgelu os, er enghraifft, byddai datgelu yn amharu ar hawliau 3ydd parti (e.e. preifatrwydd / cyfrinachedd neu ble byddai datgeliad yn effeithio ar atal neu ganfod trosedd, neu hyd yn oed ddiogelwch cenedlaethol), ond yn amodol i ymarfer cydbwyso gofalus a gyda'r dewis o gadw'r cais datgeliad i'r llys benderfynu.

## 5 Datgeliad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG)

5.1 Rydym yn “awdurdod cyhoeddus” i ddibenion y DdRhG, ac felly mae gennym ddyletswydd i gadarnhau neu wrthod bodolaeth gwybodaeth ac i gyfathrebu'r wybodaeth honno.

5.2 O dan y DdRhG (adran 19) mae dyletswydd arnom i gyhoeddi, yn rhagweithiol, gwybodaeth penodol am ein gweithgareddau. Rydym yn rhyddhau’r wybodaeth leiaf bosibl o dan y cynllun cyhoeddi. Gallwch ofyn am wybodaeth nad yw’n cael ei rhestru yn y cynllun.

5.3 Mae’r hawl cyffredinol i dderbyn gwybodaeth dan y DdRhG wedi ei gymhwyso gan nifer o eithriadau. Mae rhai eithriadau yn ddiamod ac mae rhai wedi eu cymhwyso ble mae'n rhaid i ni ystyried os yw lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na lles y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

5.4 Bydd rhai o’r eithriadau mwyaf perthnasol ar gyfer ein gwybodaeth yn rhai a gyflwynir ar wybodaeth a gedwir i ddibenion ymchwiliad a gyflawnir gan awdurdod cyhoeddus (adran 30), gwybodaeth bersonol (adran 40), gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol (adran 41) a gwybodaeth sy'n denu braint gyfreithiol (adran 42).

5.5 Nid oes unrhyw orfodaeth i ddarparu gwybodaeth os yw’r amser a amcangyfrifir i’w lleoli ac adfer yn fwy na'r terfyn costau priodol a sefydlir yn y Rheoliadau a wnaed dan y DdRhG. Bydd y terfyn costau priodol ar gyfer SAYH wedi ei gyrraedd wedi 18 awr.

## 6 Yr hawl i fynediad i ddata personol dan ddeddfau diogelu data.

6.1 Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i unigolion yn ymwneud â’u data personol. Pan fydd rhywun yn gofyn am ddatgeliad gwybodaeth yn ymwneud â nhw eu hunain, bydd eu cais yn cael ei drin yn unol â chyfraith diogelu data. Unwaith eto, mae’r hawl i wybodaeth wedi ei gymhwyso gan eithriadau penodol. Gall y rhain gynnwys:

- i osgoi rhwystro ymchwiliad, archwiliad neu weithdrefn swyddogol neu gyfreithiol;
- i osgoi rhagfarnu atal, canfod, ymchwiliad neu erlyniad troseddau; I amddiffyn diogelwch cyhoeddus;
- i amddiffyn diogelwch cenedlaethol;
- i amddiffyn hawliau a rhyddidau eraill.

I ddeall mwy am eich hawliau, ewch i’n gwefan
www.policeconduct.gov.uk/cy/information-requests
https://www.policeconduct.gov.uk/cy/privacynotice